# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**31.01.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Ar ddiwedd wythnos tawelach na'r dwetha' (!!), hoffwn ddiolch iawn i bob un ohonoch am ddanfon negeseuon mor, mor hyfryd i'ch plant ar galonnau ♥♥ ar gyfer ein dathliad o gariad ar ddiwrnod **Santes Dwynwen**. Roedd hi'n brofiad arbennig iawn clywed y plant yn trafod eich negeseuon. Ac am ymdrech anhygoel gennych i addurno ac ysgrifennu'r negeseuon. Diolch am gynnwys geiriau Cymraeg – **Tocyn Cymreictod** i bob un ohonoch!

Bu'r Disco **Santes Dwynwen** yn hynod llwyddiannus hefyd gyda'r plant ar eu gorau yn mwynhau ac yn cymdeithasu. Balch iawn ohonynt! Diolch eto i'r **GRhA** am drefnu ac i chi am gefnogi. Bydd pob ceiniog o elw yn cael ei wario ar eich plant. ☺

Braf heddiw oedd gallu lansio ein ymgyrch **Banc Bwyd** misol ar y cyd gyda **Rotari'r Garth**. Diolch am bob cefnogaeth a chofiwch ein bod yn casglu **Dydd Gwener ola** pob mis.

Llongyfarchiadau arbennig a chalonnog i bawb o Ddosbarth 3C ar berfformiad clodwiw yn eich Gwasanaeth Dosbarth heddiw. Cawsom oll neges bwysig am ddiogelwch ar y we.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i gyd i'r ysgol **Dydd Mercher (5ed) am 9.15am** er mwyn i chi allu clywed am y **Dulliau Adferol** sydd bellach ar waith ar draws yr ysgol. Bydd cwmni WRAP yn cyflwyno'r wybodaeth ac fe fydd cyfle i chi fynd i ddosbarth eich plentyn er mwyn gweld amser cylch adferol ar waith fel rhan i'r cyfarfod. Dewch yn llu!

Mae'n siŵr bod cyffro hyd yn oed yn fwy nag arfer i ddisgyblion Blwyddyn 4 sydd yn mynd ar daith preswyl i Ganolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd wythnos nesa. Diolch i'r staff am roi o'u hamser i sicrhau'r cyfle hwn i'r plant – **joiwch mas draw bawb!**

★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★ ★

At the end of a quieter week than last (!!), **diolch yn fawr** you to all of you for your beautiful messages to your children ♥♥ for our celebration of love on **Santes Dwynwen**. It was a moving experience to hear the children talk about your messages. There was an astounding effort by all to decorate and write the messages. Diolch too for including Welsh words in your messages – **Tocyn Cymreictod** i bawb!

The **Santes Dwynwen** discos were also successful with the children at their best having fun together. Very proud of them all for being at their absolute best! Diolch to the **PTA** for organising the discos to you for supporting. Every penny will be spent on your children. ☺

We are proud to launch our monthly **Foodbank** campaign today with **Garth Rotary**. Thank you for all contributions. We will be collecting on the last Friday of every month.

Special and heartfelt congratulations to all in **Dosbarth 3C** for a wonderful performance in today's Class Assembly. We are all grateful for the important message about web safety.

We look forward to welcoming you all to school **Wednesday (5th) at 9.15am** so you can hear about the **Restorative Approaches** now in place across the school. The WRAP company will present the information and you will be able to visit your child's class to see circle time in action. See you there!

I have no doubt there is even more excitement than usual for Year 4 pupils who are attending a residential trip to the Urdd Centre in Cardiff Bay next week. Diolch to the staff for taking the time to provide this opportunity for the children – **joiwch mas draw bawb!**

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**5.2.25 @ 9.15am**
Cyfarfod Rheini (pawb) – **Dulliau Adferol**
*Parents Meeting (all parents)*
***Restorative Approaches***

**Chwefror 6-7**
**February 6-7**
Taith Preswyl B4
(Urdd Bae Caerdydd)
*Year 4 Residential*
*(Urdd Centre, Cardiff Bay)*

*Mwynhewch Blwyddyn 4!!!*

**Mawrth 26-28**
**March 26-28**
Taith Preswyl B5
*Year 5 Residential*
(Call of the Wild)

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*

**Diolch 3C** am ein hatfgoffa am Ddiwrnod Diogelwch y We Dydd Llun!

**Dioch 3C** with a reminder to us all that it is Internet Safety Day on Monday!






**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
*Spring Term Bus Bike Days*

14.2.25

7.3.25
21.3.25
4.4.25



Fel ysgol, byddwn yn ymuno â her **Stroliwch a Rholiwch** *Sustrans* eto eleni. Cynlluniwch ymlaen llaw NAWR – faint ohonoch all deithio i’r ysgol ar feic neu sgwter neu yn cerdded dros y pythefnos rhwng Mawrth 24 ac Ebrill 4? Helpwch ni i ennill gwobrau arbennig i’r ysgol!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/cy-GB/Sustrans-BWAW-2025-Welsh-InfoSheet.pdf

As a school, we will be joining the *Sustrans* Big Walk and Wheel challenge again this year. Plan ahead NOW – how many of you can travel to school by bike or scooter or walking over the two weeks between March 24 and April 4? Help us win amazing prizes for the school!
https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/en-GB/Sustrans-BWAW-2025-InfoSheet.pdf

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week






## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week







Diolch am bob cyfraniad i'r banc bwyd heddiw. Y cyntaf!

Casglwyd **18kg** o nwyddau!

**Casgliad nesa Mawrth 28ain**

*Thank you for your food bank contributions today – the first!*

*We collected **18kg** of goods.*

***Next collection March 28th***